# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i Gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **Gorffennaf 3ydd 2018** |
| **Aelod Cabinet:** | **Nia Jeffreys** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Geraint Owen** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt** | **32335** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Adroddiad Blynyddol Iechyd Diogelwch a Llesiant** |

1 **Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Cymeradwyaeth o'r adroddiad blynyddol.

2 **Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

Mae ymrwymiad Arweinydd y Cyngor a nodir yn ein polisi Iechyd a Diogelwch yn nodi y bydd yn sicrhau fod y cabinet yn monitro perfformiad Iechyd a Diogelwch y Cyngor. Ymgais yw'r adroddiad yma i ddarlunio'r sefyllfa gyffredinol ar draws y Cyngor.

3 **CYFLWYNIAD**

Cyflwynir yr adroddiad er mwyn rhoi darlun i'r Cabinet o'r sefyllfa gyfredol o ran rheolaeth iechyd a diogelwch o fewn y Cyngor, ynghyd â beth oedd y prif weithgareddau a digwyddiadau tros y flwyddyn ddiwethaf. Derbynnir adroddiad blynyddol ar sefyllfa gyllidol y Cyngor ers blynyddoedd ac yn fwy diweddar hefyd mae adroddiad blynyddol Adnoddau Dynol wedi ei chyflwyno, ond hyd at eleni roedd crynodeb ar y sefyllfa iechyd a diogelwch wedi ei gynfyngu i'r Cyd Bwyllgor Ymgynghorol a'r Panel Iechyd a Diogelwch. Yn hyn o beth mae'n gam mawr ymlaen yn nhrefniadaeth y Cyngor fod adrodd yn ffurfiol yn digwydd ar y maes pwysig hwn, ac mae nifer o ffrydiau eisoes wedi ei adnabod ble gellir datblygu ac adeiladu ar y sylfaen bwysig hon i'r dyfodol. Mae hyn yn cynnwys ymgorffori agweddau o faterion diogelwch Eiddo corfforaethol y Cyngor i'r adroddiad ynghyd ac amlygu y berthynas amlwg rhwng gallu amddiffyn hawliadau ariannol anafiadau personol yn erbyn y Cyngor gyda trefniadau iechyd a diogelwch, gan mai'r trefniadau hyn yw sail amddiffyniad y Cyngor i bob hawliad.

Bwriad yr adroddiad hon yw cyflwyno manylion am y sefyllfa gyfredol o ran rheolaeth iechyd diogelwch a llesiant o fewn y Cyngor, boed hynny yn risgiau i staff y Cyngor

neu i bobl Gwynedd.   Byddwn yn amlinellu y materion hynny a'r risgiau i'r Cyngor sydd angen cymorth i'w symud yn eu blaenau ar lefel arweinyddaeth.

**4. CYNLLUN POBL: DATBLYGU RHEOLWYR A STAFF.**

Y mae'n ffrwd gwaith ar Gynllun Pobl Cyngor Gwynedd 2016-18 i fod yn grymuso a galluogi rheolwyr a staff y Cyngor.  O ran iechyd a diogelwch, golyga hyn rymuso rheolwyr i fod yn arwain ar reoli'r risgiau o fewn y Gwasanaeth gan sefydlu rôl mwy clir i'r Gwasanaeth Iechyd Diogelwch a Llesiant fel un ymgynghorol.   Mae hyn yn arbennig bwysig yn sgil toriadau ddaeth yn weithredol o fewn yr Uned ganolog yn ystod 16/17.    Yn ei hanfod, yr hyn sydd dan sylw yw i ddatblygu model busnes a model rheolaethol y Cyngor, a mireinio rôl y Gwasanaeth Iechyd Diogelwch a Llesiant (ynghyd â nifer o wasanaethau canolog eraill) fel partner busnes, gyda'r cyfrifoldeb clir am drefniadau a rheolaeth risgiau dydd i ddydd yn disgyn ar Reolwyr.

Mae llawer o waith wedi digwydd tros y ddwy flynedd diwethaf i baratoi'r Adrannau am y newid hwn, ac mae'n newid sylweddol - dylid bod yn gwbl glir am hynny. Yn wir mae'n brosiect ynddo'i hun.  Tros y blynyddoedd, mae'n deg i nodi fod y gwaith o reoli risgiau yn y meysydd ble fo prif risgiau'r Cyngor wedi cael ei arwain i raddau gan Swyddogion cymwys o fewn yr Uned Ganolog.

Mae prosiectau sylweddol wedi bod ar droed felly i rymuso Rheolwyr gan y bydd yn anochel y bydd lleihad yn y gefnogaeth sydd ar gael iddynt wrth symud ymlaen. Mae'r prosiectau hyn yn cynnwys un yn y maes gofal yn ymwneud â'r asesiadau risg ar ddefnyddwyr gwasanaeth ac un arall o fewn yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ble fo 217 o staff a rheolwyr wedi eu hyfforddi ar amrywiol deitlau iechyd a diogelwch. Mae'r siart llif isod (trosodd) yn dangos y broses sydd wedi cymryd lle o fewn y gwasanaeth Darparu (preswyl) ar ffurf goleuadau traffig (coch, melyn a gwyrdd)i fod yn grymuso staff y Gwasanaeth i reoli risgiau.

**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

Pob Rheolwr Cartref / Is Reolwr ac Uwch Ofalwyr (Charge of home) wedi derbyn hyfforddiant Rheoli'n Ddiogel.

↓

Sefydlu perthynas waith ac ymddiriedaeth hefo'r Uned I&D ganolog, cael amcanion clir a chefnogaeth tim(au Rheoli)

↓

Sefydlu grwp tasg i edrych ar ddau fater penodol:

- Y drefn o dderbyn defnyddwyr i gartref
- Asesiadau risg

↓

**Trefn o dderbyn defnyddwyr**
Adolygu holl broses o dderbyn defnyddiwr i gartref gan gynnwys trefniadau a dogfennaeth. Adnabod camau gwag yn y drefn.
Cynnwys Gwasaanethau Cymdeithasol yn y trafodaethau

↓

**Asesiadau Risg**
Grwp tasg o dan arweinyddiaeth Ymgynghorydd I&D wedi sefydlu banc o asesiadau risg generig all bob cartref eu defnyddio a'u haddasu i'w sefyllfa.

↓

**Hyfforddiant**
Pob aelod staff wedi derbyn Hyfforddiant gan Ymgynghorydd I&D ar drefniadau sylfaenol gweithio'n unig ac asesiadau risg.
Bydd pob Rheolwr angen adnabod gofynion hyfforddi penodol y tu hwnt i hyn.


**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

Er mwyn cyrraedd y gwyrdd, bydd angen gallu arddangos fod y trefniadau yn gynaliadwy o fewn y gwasanaeth yn dilyn trosiant staff ayb. Mae'r un prosiect ar fin cychwyn yn y gwasanaeth gofal cymunedol.

Mae llawer mwy o waith i'w wneud yn y maes yma, ac mai rhai Adrannau yn barotach nac eraill wrth symud ymlaen e.e. mae rhai Adrannau wedi sicrhau fod pob rheolwr gwasanaeth wedi mynychu cwrs mewnol 3 diwrnod '*Rheoli'n Ddiogel*' sy'n amlinellu yr holl system reoli y mae Rheolwr angen ei roi mewn lle ar gyfer ei Wasanaeth. Mae yna fylchau mewn Adrannau eraill gyda Rheolwyr sy'n rheoli risgiau arwyddocaol ddim wedi mynychu unrhyw hyfforddiant. Mae hwn yn ofyn cyfreithiol gan mai cael rheolwyr cymwys sy'n deall eu cyfrifoldebau yw'r sylfaen mwyaf elfennol i fod yn rhoi system effeithiol mewn lle o fewn pob Gwasanaeth. Ni ellir datgan unrhyw sicrwydd fod trefniadau boddhaol mewn lle mewn Gwasanaeth penodol oni bai bod y sylfaen hyn mewn lle.

Yn yr un modd wrth gwrs mae'n hanfodol fod Uwch Reolwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth yn glir o'r cyfrifoldebau sydd arnynt hwy, a'u bod wrth symud ymlaen yn dal Rheolwyr yn atebol. Mae gofyniad cyfreithiol i bawb ar bob lefel o sefydliad dderbyn hyfforddiant sy'n gymesur a pherthnasol i lefel eu swydd.

Dengys y graff trosodd beth oedd y sefyllfa mewn perthynas â hyfforddiant i Reolwyr yn rhai o Adrannau'r Cyngor ble fo risgiau arwyddocaol hyd at 31/3/18. Mae'r nifer o reolwyr sydd wedi mynychu hyfforddiant wedi cynyddu yn sylweddol yn ystod y flwyddyn ac mae nifer mwy wedi cofrestru i fynychu tros y misoedd nesaf. Mae'r sefyllfa ynglŷn â hyfforddiant iechyd a diogelwch wedi ei adrodd i'r cabinet o fewn adroddiad perfformiad yr Arweinydd Portffolio yn Nhachwedd 2017 ac fe nodwyd bryd hynny y bydd y mater o Reolwyr yn peidio â mynychu hyfforddiant iechyd a diogelwch os ydynt yn rheoli risgiau arwyddocaol yn derbyn sylw yn fframwaith medrusrwydd y Cyngor i'r dyfodol.




Ymhellach i'r uchod, mae'r Uned Iechyd a Diogelwch wedi gorfod ystyried a blaenoriaethu gwaith yr Uned. I'r perwyl hwn, mae'r ffrydiau gwaith isod yn feysydd na all yr Uned ei gyflawni wrth symud ymlaen. Mae trefniadau amgen eisoes wedi ei roi mewn lle ar gyfer rhai ffrydiau gwaith ac mae blaenoriaethu yn digwydd o ran rhai o'r ffrydiau eraill. Bydd rhai ffrydiau angen ystyriaeth gan yr Adrannau fodd bynnag gan eu bod yn agweddau statudol a bydd angen ystyried adnodd allanol i'r dyfodol.

Mae'r ffrydiau fel a ganlyn:

a) Cydlynnu Cymorthyddion Cyntaf a marsialyddion tân ym mhrif adeiladau'r Cyngor – mae'r cyfrifoldeb hwn bellach wedi ei drosglwyddo i Reolwyr Safle.
b) Hyfforddiant symud a thrin: mae un hyfforddwr mewnol yn parhau a bydd yn blaenoriaethu ei gwaith yn y maes gofal. Gall y bydd yn rhaid allanoli peth o'r hyfforddiant symud a thrin gwrthrychau.
c) Cyfarfodydd 'schoolwatch' – ni fydd y Cyngor yn cydlynu'r cyfarfodydd yma mwyach.
d) Hyfforddiant Diogelwch Personol (i weithwyr sy'n gweithio ar ben eu hunain). Mae'r Uned Dysgu a Datblygu yn y broses o adnabod hyfforddwr allanol i ddarparu'r hyfforddiant i'r dyfodol.
e) Cyngor ar gynnwys asesiadau risg symud a thrin pwysau. Nid oes arbenigwr yn y maes yma i gynghori rheolwyr ar yr agweddau iechyd o waith trwm bellach gan fod y Swydd Ymgynghorydd Gofal Cefn wedi ei diddymu oddi-ar y strwythur.

**5. NIFER DAMWEINIAU**

**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru




Mae'r nifer o ddigwyddiadau sydd angen eu hadrodd i AGID wedi aros yn gymharol gyson ers tair blynedd bellach ond mae cynnydd wedi bod yn y nifer o ddigwyddiadau a damweiniau sydd wedi eu hadrodd yn fewnol ar ffurflen damwain / ddigwyddiad. Yn ddi-os un ffactor fawr yn y cynnydd yma yw bod gwell ymwybyddiaeth ar yr angen i adrodd, yn arbennig felly ar fethiannau agos ble nad oes digwyddiad wedi bod, ond gallai rhywbeth difrifol wedi gallu a digwydd.

**6. AGID**

AGID yw'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (Health and Safety Executive) a dyma'r awdurdod sy'n gorfodi iechyd a diogelwch mewn sefydliadau cyhoeddus.

O'r digwyddiadau a adroddwyd i AGID, bu dilyniant i dri achos. Mae cost ynghlwm ac unrhyw ymyrraeth gan AGID ble canfyddir beth a elwir yn 'ddiffyg materol' (material breach) i gydymffurfio a chyfraith iechyd a diogelwch h.y. methiant i gydymffurfio â gofynion statudol. Mae'r gost yma ar hyn o bryd yn £129 yr awr ac mae hyn yn daladwy am yr holl amser y mae arolygydd yn ei dreulio yn ymchwilio i achos. Ble na chanfyddir diffyg, yna nid oes cost.

a) Achos ble bu i breswylydd oedd ar ofal brys yn un o gartrefi preswyl y Cyngor godymu a bu iddo farw o ganlyniad i'r gwymp. Yn ystod yr ymchwiliad i ganlyn, cafodd gwelliannau mewn rheolaeth gyffredinol, prosesau asesi risg a hyfforddiant eu hadnabod fel bod yn angenrheidiol. Bu i AGID gyflwyno Rhybudd Gwella. Codwyd ffi o **£2824.56** am amser AGID yn yr achos yma. Mae'r Cyngor bellach wedi cydymffurio â'r rhybudd.

b) Achos ble roedd gweithiwr o fewn yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol wedi datblygu cyflwr 'tendonitis' oherwydd natur gwaith ailadroddus. Mae cyflyrau

iechyd a achosir yn y gwaith yn derbyn sylw craff gan AGID ar hyn o bryd, ac mae adrodd ar unrhyw gyflwr iechyd sy'n datblygu oherwydd gwaith yn debygol iawn o dderbyn dilyniant. Yn yr achos yma, daeth arolygydd AGID i ymchwilio i'r mater, ac er nad oedd ansawdd yr asesiad risg yn ei bodloni, roedd yn hapus hefo ansawdd yr hyfforddiant manwl oedd staff wedi ei dderbyn. Roedd hynny yn bennaf gan fod hyfforddiant manwl iawn wedi ei roi i'r unigolyn ar y risgiau ynghlwm a'i waith a sut i gwblhau'r gwaith yn ddiogel. Hyfforddiant mewnol oedd hwn gan yr Ymgynghorydd Gofal Cefn a oedd wedi treulio peth amser yn ymchwilio i natur y gwaith a pharatoi canllawiau ymarfer da i'r garfan o staff sy'n gwneud y gwaith yma. (*Dylid nodi na fydd gwaith o'r math yma yn digwydd i'r dyfodol oherwydd bod y swydd Ymgynghorydd Gofal Cefn wedi ei diddymu oddi ar strwythur y Gwasanaeth.)*

c) Achos o ddirgryniad braich a llaw. Bu i feddyg y Cyngor roi diagnosis o syndrom dirgryniad braich a llaw ar aelod staff yn yr Adran Economi. Adroddwyd hyn o dan drefniadau RIDDOR a bu i AGID ddilyn i fyny gydag ymchwiliad. Bu i'r ymchwiliad ddod i'r casgliad nad oedd asesiad risg addas a digonol ar waith dirgrynu o fewn y Gwasanaeth cyn y diagnosis ac felly ei bod yn debygol fod yr unigolyn wedi ei amlygu i lefel o ddirgryniad sydd uwchlaw'r uchafswm cyfreithiol. Ar sail hyn, roedd ddiffyg materol wedi ei ganfod ac mae ffi o £1780 wedi ei godi. Er bod yr arolygydd yn derbyn fod camau bellach wedi eu cymryd i roi trefniadau mewn lle, mae rhai argymhellion pellach wedi eu gwneud.

Ni fu unrhyw gamau gorfodaeth gan y Gwasanaeth Tan ac Achub am faterion tan.

## 7. YSWIRIANT

Tros y blynyddoedd diwethaf, mae'n wir i ddweud fod yswirwyr yn gyffredinol yn cymryd mwy a mwy o ddiddordeb mewn materion iechyd a diogelwch gan eu bod angn sicrhau fod trefniadaeth gadarn ar faterion iechyd a diogelwch a fod safonau penodol yn cael eu cyrraedd cyn eu bod yn cynnig gwarchodaeth. Eleni bu i yswirwyr y Cyngor gynnal archwiliadau mewn rhai adeiladau i wirio safonau. O ganlyniad bu iddynt osod cyfyngiadau tros dro ar y warchodaeth yswiriant ar rai ysgolion petai difrod oherwydd tân, a hynny oherwydd fod storfeydd biniau yr ysgolion hynny yn rhy agos i'r adeilad (biniau heb eu diogelu ac felly pryder y gellid rhoi bin ar dân a bod tân yn lledaenu i'r ysgol.) Mae'r mater yma yn derbyn sylw ar hyn o bryd.

## 8. ARCHWILIADAU


Mae gan yr Uned Iechyd a Diogelwch raglen gylchol o archwiliadau sy’n gwirio trefniadaeth iechyd a diogelwch ym mhob un o Wasanaethau a Safleoedd y Cyngor yn ei dro. Dylid nodi mai archwiliadau i wirio trefniadaeth sylfaenol yw y rhain h.y. i wirio fod hyfforddiant priodol wedi ei roi i staff allweddol a fod asesiadau risg mewn lle, nid yw’r archwiliadau yn gallu mynd i fanylder ar bob asesiad i wirio ydynt yn rai addas a digonol. Yn ystod 17/18, mae’r rhaglen wedi canolbwyntio ar ysgolion yn ardal Arfon â’r Adran Oedolion. Cynhaliwyd 55 archwiliad eleni, ac o’r nifer hynny roedd 28 safle neu wasanaeth ble canfuwyd rhai meysydd angen gwelliant. Mae rhai o’r gwelliannau hynny eisoes wedi eu cwblhau.

## 10. SAFON IECHYD CORFFORAETHOL

Mae’r Cyngor yn dal y wobr Aur o ran safon iechyd corfforaethol ers nifer o flynyddoedd. Yn ystod 17/18 bu ail asesiad llawn gan aseswyr o’r Cynulliad a fu’n craffu pob elfen o’r cymorth sydd ar gael i staff yn y maes iechyd. Ail ddyfarnwyd y wobr Aur eto am gyfnod o dair blynedd. Fel sy’n arferol, mae adroddiad wedi ei derbyn i gadarnhau’r dyfarniad sy’n cynnwys rhai awgrymiadau ar sut i ddatblygu trefniadau ymhellach.

## 11. SWYDDOG PROSIECT STRAEN A LLES MEDDYLIOL

Un datblygiad positif iawn o ran iechyd a llesiant yw’r Swydd Swyddog Prosiect Straen a Lles meddyliol sydd wedi ei chreu o fewn y Gwasanaeth Iechyd Diogelwch a Llesiant am gyfnod o flwyddyn i fod yn adolygu holl drefniadau’r Cyngor yn y maes hwn. Croesawyd y datblygiad hwn yn fawr gan yr aseswyr ar gyfer y Safon Iechyd. Mae’r swyddog wedi bod yn gwneud gwaith ymchwil i’r ymarfer gorau yn genedlaethol a bydd yn cyflwyno adroddiad ar ei gwaith gan wneud argymhellion ar unrhyw gamau ychwanegol y gall y Cyngor eu cymryd yn y maes yma yn ystod mis Mehefin. Mae’n amserol fod ffigyrau blynyddol ar ddefnydd staff o’r Gwasanaeth Cwnsela Medra newydd eu cyhoeddi a bod chwarter diwethaf y flwyddyn yn dangos cynnydd sylweddol iawn yn y nifer o staff sy’n defnyddio’r Gwasanaeth (gweler trosodd).




**CASGLIADAU**

Mae gwaith sylweddol wedi digwydd yn ystod y flwyddyn i fod yn datblygu model rheolaethol y Cyngor a grymuso Rheolwyr i fod yn gallu rheoli materion iechyd a diogelwch o fewn eu Gwasanaethau. Mae wedi bod yn waith araf iawn o ran newid diwylliant ac mae'n brosiect llawer mwy nac oedd wedi ei ragweld yn wreiddiol. Serch hyn, mae newid sylweddol wedi bod mewn rhai Gwasanaethau ac mae'r gwaith bellach yn ennill momentwm.